# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 31/2001

15 Chwefror 2002

**DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000**

**Cyflwyniad**

1. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar 30 Tachwedd 2000. Daeth rhai o'i darpariaethau (y rhai a nodir yn adran 103(1)) i rym ar y diwrnod hwnnw a daeth rhai eraill i rym yn awtomatig ar 30 Ionawr 2001 (y rhai a nodir yn adran 103(2)). Mae adran 103(3) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gychwyn, mewn perthynas â Chymru, y darpariaethau eraill yn y Ddeddf. Gwnaed dau orchymyn i ddod â nifer o ddarpariaethau eraill i rym ar naill ai 30 Ionawr[1] neu 1 Mai 2001[2]. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar y setiau hyn o ddarpariaethau, ac mae hefyd yn rhoi manylion bras am ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf a fydd yn effeithio ar awdurdodau lleol ac y cyhoeddir canllawiau mwy manwl arnynt maes o law.

2. Mae copïau o'r Ddeddf a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig ar gael o Lyfrfa ei Mawrhydi neu o'u gwefan.[1]

**Rhan I: Mynediad i gefn gwlad**

3. Mae Rhan I yn cyflwyno hawl mynediad newydd i fynydd-dir, gweundir, rhostir a thwyni (a ddisgrifir gyda'i gilydd fel cefn gwlad agored) a thir comin cofrestredig, ar gyfer hamdden awyr agored. Bydd cyfyngiadau ar yr hawl newydd, yn cynnwys cyfyngiadau ar gŵn a darpariaethau i ganiatáu i berchnogion tir wahardd neu gyfyngu ar fynediad am unrhyw reswm am hyd at 28 diwrnod y flwyddyn heb geisio caniatâd. Ceir darpariaeth hefyd i gyfyngu ymhellach ar fynediad am resymau'n ymwneud â rheoli tir, cadwraeth, atal tân ac osgoi perygl i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn cynnwys pŵer i ehangu'r hawl i dir arfordirol trwy orchymyn, ac mae'n galluogi perchnogion tir i gyflwyno unrhyw dir yn wirfoddol ac yn ddi-alw'n-ôl ar gyfer mynediad cyhoeddus.

---

[1] Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001 (S.I. 2001/203 (Cy.9) (C.10))

[2] Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001 (S.I. 2001/1410 (Cy.96) (C.50))

[3] www.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000037.htm

4. Yn ôl darpariaethau'r Ddeddf, cyflawnir rhai swyddogaethau mewn perthynas â thir mynediad gan 'awdurdodau mynediad', h.y. Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn eu hardaloedd hwy a'r awdurdodau priffyrdd lleol mewn ardaloedd eraill. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfau (adran 17), i benodi wardeniaid (adran 18) ac i godi a chynnal arwyddion yn nodi ffiniau ac ati (adran 19). Bydd gan awdurdodau mynediad bŵer o dan adran 35 o'r Ddeddf i negodi cytundebau i ddarparu mynedfeydd ac i wneud y gwaith angenrheidiol eu hunain os na ellir dod i gytundeb.

5. Ni fydd yr hawliau mynediad newydd yn dod i rym ar unwaith – mae angen mapiau o'r tir mynediad, rheoliadau, canllawiau a gwaith paratoi pwysig arall yn gyntaf. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n anelu at weithredu'r hawl mynediad ledled Cymru erbyn 2004/5. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i awdurdodau cofrestru tir comin helpu Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i gyflawni ei ddyletswyddau mapio statudol trwy roi data i'r Cyngor o'r cofrestrau tir comin a chynnig sylwadau ar fapiau tir comin a gynhyrchir gan CCGC.

6. Er bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 (ac eithrio'r pŵer i benodi wardeniaid) wedi dod i rym ar 30 Ionawr 2001, hysbysir awdurdodau lleol nad oes angen iddynt wneud dim o dan y darpariaethau hyn ar hyn o bryd. Y rheswm yw mai dim ond mewn perthynas â thir sy'n dir mynediad at ddibenion adran 1(1) o'r Ddeddf y gellir arfer y pwerau. Er bod peth tir wedi dechrau cael ei gyfrif yn dir mynediad ar 30 Ionawr (tir dros 600 metr a thir comin cofrestredig), ni fydd y rhan fwyaf o dir yn cael ei gyfrif yn dir mynediad hyd nes y bydd wedi'i ddangos ar fapiau terfynol a gyhoeddir gan CCGC. Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y bydd yn angenrheidiol i awdurdodau mynediad ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt yn Rhan I hyd nes y cychwynnir yr hawl mynediad i dir mynediad trwy Orchymyn, neu i baratoi ar gyfer cychwyn yr hawl. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau pellach i awdurdodau mynediad cyn i Orchymyn cychwyn fel hyn gael ei wneud.

7. Yr 'awdurdodau perthnasol', h.y. Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar gyfer eu hardaloedd hwy a Chyngor Cefn Gwlad Cymru mewn ardaloedd eraill, sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau am gyfyngiadau a gwaharddiadau ar fynediad i dir. Os yw tir lle caniateir mynediad o dan adran 16 yn goetir, y Comisiwn Coedwigaeth yw'r awdurdod perthnasol. Bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol gynnal cysylltiadau effeithiol â'r sefydliadau uchod ar faterion sy'n codi o gyfyngiadau a gwaharddiadau a gymeradwyir a rhoi cyfarwyddiadau priodol i'w wardeniaid.

**Rhan II: Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Tir Comin a Thraffig**

8. Mae'r darpariaethau a geir yn rhan II o'r Ddeddf yn newid cyfraith hawliau tramwy mewn nifer o ffyrdd a bydd yn effeithio ar swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â hawliau tramwy. Daw llawer o'r darpariaethau hyn i rym pan fydd y rheoliadau angenrheidiol wedi'u gwneud a chanllawiau pellach wedi'u cyhoeddi.

9. Rhoddir canllawiau, yn y rhan hon o'r Cylchlythyr, ar y darpariaethau yn Rhan II a ddaeth i rym ar 30 Ionawr 2001 (yn rhinwedd adran 103(2) o'r Ddeddf) neu a gychwynnwyd trwy orchymyn a ddaeth i rym yng Nghymru ar 1 Mai 2001[2]. Dylai awdurdodau barhau i gyfeirio at Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 5/93 mewn perthynas â materion nad yw'r darpariaethau a ddaeth i rym ar 30 Ionawr 2001 na 1 Mai 2001 yn effeithio arnynt.

**Cilffyrdd cyfyngedig**

10. Mae'r Ddeddf yn creu math newydd o briffyrdd – cilffyrdd cyfyngedig. Ar y rhain, ceir hawl tramwy cyhoeddus i bobl ar droed, ar gefn ceffyl neu'n tywys ceffyl ac ar gyfer cerbydau nad ydynt yn rhai peiriannol. Pan gychwynnir adrannau 47 a 48 o'r Ddeddf, bydd priffyrdd a ddangosir ar fapiau diffiniol fel ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus (RUPPs) yn cael eu trin yn hytrach fel pe baent yn cael eu dangos fel cilffyrdd cyfyngedig a bydd hawliau cilffyrdd cyfyngedig mewn grym arnynt. Ceir darpariaethau atodol yn adrannau 49 i 51. Daw'r darpariaethau hyn i gyd i rym trwy orchymyn cychwyn yn nes ymlaen.

11. Fodd bynnag, daeth adran 52 o'r Ddeddf, sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (ac, mewn rhai achosion, Gynulliad Cenedlaethol Cymru) i ddiwygio, trwy reoliadau, ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â chilffyrdd cyfyngedig, i rym ar 30 Ionawr 2001. Mae'r adran hon yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (neu'r Cynulliad, fel sy'n berthnasol) i archwilio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phriffyrdd ac i benderfynu pa ddarpariaethau a ddylai fod yn berthnasol ac na ddylai fod yn berthnasol i gilffyrdd cyfyngedig neu sut y dylid addasu'r darpariaethau hynny ar ôl cyflwyno'r syniad o gilffyrdd cyfyngedig.

12. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i ddau Dŷ'r Senedd gymeradwyo rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 52. Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 52, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gwneud darpariaeth sy'n effeithio ar Gymru ac mae'n ofynnol iddo gael caniatâd y Cynulliad cyn newid neu ddiddymu, yn ffurfiol ac yn benodol, is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad. Yn ogystal, mae hawl gan y Cynulliad i gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn awgrymu sut y gellid arfer ei bŵer i wneud rheoliadau.

13. Mae pŵer y Cynulliad i wneud rheoliadau o dan adran 52 yn ymwneud â'r pŵer i ddiwygio rhai dosbarthiadau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymru. Mae'r dosbarthiadau hynny fel a ganlyn: unrhyw Ddeddf leol neu breifat a basiwyd cyn Deddf

[2] Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001

2000 neu yn yr un sesiwn â hi ac sy'n ymwneud yn unig ag ardaloedd yng Nghymru, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn i'r Ddeddf gael ei phasio ac y mae gan y Cynulliad bŵer i'w diwygio neu ei diddymu mewn perthynas â Chymru.

14. Pan ddaw adran 47 o'r Ddeddf i rym, bydd adran 54 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn colli ei grym ac felly ni fydd bellach yn ddyletswydd ar awdurdodau mesur tir i ailddosbarthu RUPPs. Tan hynny, fodd bynnag, mae'r ddyletswydd o dan adran 54 yn dal, a dylai awdurdodau barhau i adolygu eu RUPPs ac i wneud gorchmynion ailddosbarthu. Caiff unrhyw orchmynion o'r math, neu geisiadau am orchmynion i newid statws RUPP, a wneir cyn y daw adran 47 i rym, eu prosesu hyd at benderfyniad terfynol. O dan adran 48(9), mae'n ofynnol gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn y gorchmynion cychwyn perthnasol a wneir o dan adran 103(3).

**Ceisiadau am orchmynion creu llwybrau cyhoeddus at ddibenion Rhan I o'r Ddeddf**

15. Mae adran 58 yn galluogi Cyngor Cefn Gwlad Cymru i wneud cais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud gorchymyn creu llwybr cyhoeddus, er mwyn sicrhau neu hwyluso mynediad i dir lle caiff y cyhoedd gerdded o dan Ran I o'r Ddeddf. Cyn gwneud cais, mae'n ofynnol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru roi sylw i unrhyw gynllun i wella hawliau tramwy yn yr ardal, a baratowyd gan yr awdurdod priffyrdd perthnasol o dan adran 60 o'r Ddeddf.

16. Pe bai Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n gofyn iddo ddefnyddio'i bwerau wrth gefn i wneud gorchymyn creu llwybr cyhoeddus, byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ystyried yn ofalus a oedd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau camau o'r fath. Cyn gwneud gorchymyn, byddai'n ofynnol i'r Cynulliad, o dan adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980, ymgynghori ag awdurdodau lleol y byddai'r llwybr newydd yn rhedeg yn eu hardaloedd. Yn gyffredinol, mater i'r awdurdodau lleol, lle bo angen, fydd galluogi'r cyhoedd i gyrraedd tir mynediad, naill ai trwy negodi mynediad caniataol gyda pherchnogion tir neu trwy ddefnyddio eu pwerau presennol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i greu hawliau tramwy trwy gytundeb neu trwy orchymyn.

**Effaith Rhan I o'r Ddeddf ar bwerau i gau neu newid cwrs priffyrdd**

17. Mae adran 59 yn cyfeirio at bwerau, trwy orchymyn neu beidio, i gau neu newid cwrs priffyrdd. Mae'n atal awdurdod, pan fydd yn arfer y pwerau hyn, rhag ystyried bod bodolaeth yr hawl mynediad newydd o dan Ran I, er enghraifft, yn lleihau'r angen am y briffordd, yr angen am briffordd amgen neu'r angen i gadw hawl tramwy cyhoeddus. Yn ogystal, wrth benderfynu a ddylid cau neu newid llwybr priffordd, efallai y bydd angen i awdurdod ystyried faint o ddefnydd sy'n debygol o gael ei wneud o'r briffordd honno pan na fydd modd arfer yr hawl mynediad statudol am ryw reswm neu'i gilydd.

18. Diben adran 59 yw atal yr hawl mynediad newydd rhag cael ei defnyddio i gefnogi achos dros gau neu newid cwrs priffyrdd ac eithrio, er enghraifft, lle gall fod angen newid cwrs y ffordd er mwyn helpu pobl i gyrraedd tir mynediad.

**Achosi rhwystr ar briffordd yn fwriadol**

19. Mae adran 64 o'r Ddeddf yn gosod adran newydd, 137ZA, yn Neddf Priffyrdd 1980. Mae'r adran newydd yn awdurdodi llys ynadon, pan fydd yn dyfarnu rhywun yn euog o drosedd o achosi rhwystr ar briffordd yn fwriadol o dan adran 137 o Ddeddf 1980, i orchymyn y person hwnnw i symud y rhwystr. O dan yr adran newydd 137ZA(3), mae peidio â chydymffurfio â gorchymyn llys, heb esgus rhesymol, yn drosedd y gellir ei chosbi â dirwy heb fod dros lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd). Gellir rhoi dirwyon pellach, heb fod dros un rhan o ugain o ddirwy lefel 5, am bob diwrnod y mae'r drosedd yn parhau ar ôl yr euogfarn.

20. Os oes rhywun wedi cael gorchymyn i symud rhwystr, ni chaniateir ei (h)erlyn eto, o dan adran 137 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mewn perthynas â'r rhwystr hwnnw, yn ystod y cyfnod a bennir gan y llys o dan adran 137ZA ar gyfer symud y rhwystr. Ni chaniateir ei (h)erlyn eto mewn perthynas â hynny ychwaith yn ystod unrhyw gyfnod a bennir ar gyfer cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys o dan adran 311(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980.

21. Mae gan awdurdodau priffyrdd bwerau o dan gyfraith gwlad i symud rhwystrau anghyfreithlon o dan rai amgylchiadau. Lle bo awdurdodau'n dewis arfer y pwerau hyn ar ôl i rywun gael ei ddyfarnu'n euog o dan adran 137ZA(3), mae is-adran (4) o adran 137ZA, mewn cysylltiad ag adran 305 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn caniatáu i awdurdodau adfer eu costau trwy'r llys ynadon.

**Tyfiant yn taflu allan dros lwybrau ceffyl**

22. Mae adran 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn galluogi rhai awdurdodau i fynnu bod perchnogion a deiliaid tir yn torri'r tyfiant yn ôl os yw eu coed, eu llwyni neu eu cloddiau yn taflu allan dros briffyrdd i'r graddau eu bod yn peryglu neu'n rhwystro mynediad cerbydau neu gerddwyr. Mae adran 65 o Ddeddf 2000 yn ehangu adran 154 i gynnwys tyfiant sy'n peryglu neu'n rhwystro mynediad pobl ar gefn ceffylau. Bydd awdurdodau'n cael mynnu bod tyfiant sy'n taflu allan dros lwybrau ceffyl neu ffyrdd cerbydau'n cael ei dorri yn ôl i uchder sy'n addas ar gyfer pobl ar gefn ceffylau.

**Gorchmynion rheoli traffig at ddibenion gwarchod harddwch naturiol**

23. Mae gan awdurdodau traffig lleol bwerau o dan Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 i wneud gorchmynion rheoli traffig i wahardd traffig rhag defnyddio priffyrdd neilltuol, neu gyfyngu arno neu ei reoli. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau tebyg mewn perthynas â chefnffyrdd. Mae Deddf 1984 yn nodi at ba ddibenion y caniateir gwneud gorchmynion rheoli traffig ac fe restrir llawer o'r rhain ym mharagraff 13 o Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 5/93.

24. Mae adran 22 o Ddeddf 1984 yn galluogi awdurdodau i wneud gorchmynion rheoli traffig mewn perthynas â defnyddio ffyrdd mewn rhai ardaloedd er mwyn gwarchod neu wella harddwch naturiol yr ardal, neu roi gwell cyfleoedd i'r cyhoedd i fwynhau amwynderau'r ardal. Yng Nghymru, mae'r ardaloedd perthnasol yn cynnwys:

- Parciau Cenedlaethol
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Parciau Gwledig
- Ardaloedd lle mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n cynnal prosiectau arbrofol

- Gwarchodfeydd Natur
- Llwybrau Natur
- Tir sy’n eiddo i’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac sy'n cael ei ddal yn anamddifadwy ganddi.

25. Mae adran 66 o Ddeddf 2000 yn ehangu adran 22 i gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn ogystal, mae’r adran hon yn gosod adran newydd, 22A, yn Neddf 1984. Mae’r adran newydd yn galluogi awdurdodau traffig i wneud gorchmynion i reoli traffig cerbydol ar ffyrdd diddosbarth a chilffyrdd mewn ardaloedd nad ydynt yn dod o dan adran 22 o’r Ddeddf honno at ddibenion gwarchod neu wella harddwch naturiol yr ardal. Mae ‘gwarchod harddwch naturiol ardal’ yn cynnwys gwarchod planhigion, anifeiliaid a nodweddion daearegol a ffisiograffig yr ardal.

**Gyrru Cerbydau Peiriannol Heb Ganiatâd mewn Mannau heblaw ar Ffyrdd**

26. Mae Atodlen 7 i Ddeddf 2000 yn gwneud nifer o newidiadau i’r hyn a geir yn adran 34 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ynghylch gwahardd gyrru cerbydau modur mewn mannau heblaw ar ffyrdd. Mae’r Atodlen yn gosod adran 34 newydd yn lle’r hen un. Mae hefyd yn gosod adran newydd, 34A, yn Neddf 1988. Bydd yr ail ddarpariaeth hon yn dod i rym trwy orchymyn maes o law.

27. Ar hyn o bryd, mae adran 34 yn ymwneud â gyrru “cerbyd modur”, term a ddiffinnir yn adran 185(1) o Ddeddf 1988. Mae’r Ddeddf yn ehangu’r drosedd i gynnwys cerbydau peiriannol nad ydynt wedi’u bwriadu na’u haddasu i’w defnyddio ar ffyrdd. Mae Atodlen 7 yn gwneud newidiadau tebyg i adran 21 o Ddeddf 1988 sy’n ymwneud â'r drosedd o yrru neu barcio “cerbydau modur” ar lwybrau beiciau.

28. Nid yw’r troseddau newydd o dan adran 34 ac adran 21 o Ddeddf 1988 yn berthnasol i rai dosbarthiadau o gerbydau fel cerbydau’r anabl, cerbydau peiriannol a reolir gan gerddwyr a’u defnyddio i dorri glaswellt a beiciau pedlo sy’n gweithio â chymorth trydan.

29. Fel o’r blaen, mae’r adran 34(1)(b) newydd yn gwahardd gyrru ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl ond caiff y drosedd ei hehangu i gynnwys cilffyrdd cyfyngedig.

30. Nid yw’r ffaith bod ffordd wedi'i chofnodi'n llwybr troed neu'n llwybr ceffyl (neu, pan fydd y darpariaethau perthnasol mewn grym, yn gilffordd gyfyngedig) mewn map diffiniol, yn golygu nad oes hawliau eraill mewn grym ar gyfer y ffordd dan sylw. Er enghraifft, nid yw’n golygu nad oes hawliau cyhoeddus i yrru cerbydau peiriannol ar y ffordd. Fodd bynnag, mae adran 34(2), sy’n ddarpariaeth newydd, yn nodi fel a ganlyn: at ddibenion y drosedd, os dangosir ffordd mewn map diffiniol fel llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig, dylid rhagdybio mai ffordd o’r math a ddangosir ydyw oni phrofir yn wahanol. Felly, dylid rhagdybio mai dim ond yr hawliau cyhoeddus a geir ar lwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig a geir arni. Unwaith y bydd yr erlyniad wedi profi bod priffordd yn cael ei dangos mewn map diffiniol fel llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig, byddai baich y profi ar yr amddiffyniad i brofi yn ôl pwysau tebygolrwydd bod hawl cyhoeddus i yrru cerbyd peiriannol arni.

31. Bydd adran 34(2) yn ddarostyngedig i'r adran 34A newydd o Ddeddf 1988 pan ddaw honno i rym. Fodd bynnag, tan hynny, mae'r rhagdybiaeth o dan adran 34(2) yn berthnasol heb fod yn ddarostyngedig i adran 34A.

32. O dan adran 34A, yr unig bryd y mae'r rhagdybiaeth yn adran 34(2) yn amodol yw o dan yr amgylchiadau a nodir yn benodol ynddi neu mewn rheoliadau a wneir o tani. Felly, ac eithrio lle bo'r amgylchiadau hynny'n berthnasol neu lle bo'r amddiffyniadau yn adran 34 yn llwyddo, cyflawnir y drosedd o dan adran 34(1)(b) lle bo'r ffordd y gyrrir y cerbyd arni yn cael ei dangos mewn map diffiniol fel llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig. Mae hyn yn wir hyd yn oed os oes hawliau tramwy cyhoeddus i yrru cerbydau peiriannol.

**Darpariaeth yn Rhan II a ddaw i rym trwy Orchymyn Cychwyn**

33. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwneud gorchymyn cychwyn o dan adran 103(3) o'r Ddeddf i ddod â rhai o ddarpariaethau eraill Rhan II i rym. Y rhain yw adran 57, mewn perthynas â pharagraffau 18(a) a 19 o Atodlen 6, adran 72 (sy'n rhoi nifer o ddiffiniadau ar gyfer Dehongli Rhan II), a'r diddymiadau yn Atodlen 16 i'r Ddeddf.

34. Yn ogystal, daeth adran 70(2) a (4) i rym, trwy orchymyn cychwyn, ar 1 Mai 2001. Mae adran 70(2) yn diwygio adran 134 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae adran 134 yn rhoi hawl i aredig wyneb llwybr troed neu lwybr ceffyl sy'n croesi tir amaethyddol neu darfu arno mewn ffordd arall, ond ei bod yn ddyletswydd adfer wyneb y briffordd a marcio ei lled. Mae peidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn drosedd o dan is-adran (4). Ar hyn o bryd, o dan is-adran (5) dim ond awdurdodau priffyrdd a rhai cynghorau sy'n cael dwyn achos am y drosedd honno. Mae adran 70 yn cael gwared â'r cyfyngiad hwnnw trwy beri diddymu is-adran (5). Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw un yn cael dwyn achos mewn perthynas â'r drosedd o dan adran 134(4) o Ddeddf 1980 ond, o dan delerau'r gorchymyn cychwyn, dim ond mewn perthynas â throseddau a gyflawnir ar 1 Mai 2001 neu wedi hynny.

35. Mae adran 70(4) yn diwygio adran 21(2)(b) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Mae'r diwygiad yn rhoi amddiffyniad i awdurdodau priffyrdd rhag cael eu herlyn am yrru neu barcio cerbydau peiriannol ar lwybrau beiciau pan wneir hyn i atal neu symud rhwystrau neu i atal neu ddiddymu rhywbeth arall sy'n ymyrryd â'r briffordd. Mae'r diwygiad yn codi o ddyfarniad gan Dŷ'r Arglwyddi yn *Goodes v East Sussex County Council* [2000] 3 All ER 603, ac ymddengys bod hyn yn golygu nad yw'r darpariaethau presennol yn adran 300 o Ddeddf 1980 ac adran 21(2)(b) o Ddeddf 1988 yn cynnwys symud rhwystrau na diddymu niwsans. Y rheswm dros hyn yw mai dehongliad cul a roddwyd i ystyr "maintenance" ac ymddengys nad yw'n cynnwys symud rhwystrau ac ati.

36. Mae is-adran (3) o adran 70 yn diwygio adran 300 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac, yn yr un modd, mae'n rhoi imwnedd rhag erlyniad i awdurdodau priffyrdd am yrru cerbydau peiriannol ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl. Fodd bynnag, cyn y gellir gweithredu'r adran 300 ddiwygiedig, mae'n rhaid gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth ac fe ddaw adran 70(3) i rym yn ddiweddarach, pan fydd y newidiadau hynny wedi'u gwneud.

37. Adran 72 ac Atodlen 16 – Mae adran 72 yn rhoi nifer o ddiffiniadau ar gyfer dehongli Rhan II. Daeth adran 72 a'r diddymiad yn Atodlen 16 i'r Ddeddf mewn perthynas ag adran 22 o'r Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 i rym ar 30 Ionawr 2001.

## Rhan III: Gwarchod natur a diogelu bywyd gwyllt

38. Mae Rhan III o'r Ddeddf yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â gwarchod natur a diogelu bywyd gwyllt, ac mae'n cynnwys darpariaeth ar warchod bioamrywiaeth a diogelu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae'r paragraffau isod yn rhoi crynodeb o'r goblygiadau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol.

### Bioamrywiaeth

39. Mae adran 74 o'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau newydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â gwarchod bioamrywiaeth. Nid yw'r rhain yn ddyletswyddau i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnwys awdurdodau lleol wrth arfer y ddyletswydd o hybu eraill i gymryd camau i hyrwyddo gwarchod y mathau o gynefinoedd a'r rhywogaethau sydd bwysicaf o ran bioamrywiaeth. Yn ymarferol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl y bydd y rhestrau o fathau o gynefinoedd a rhywogaethau pwysicaf yn cyfateb i raddau helaeth i'r rhai sydd eisoes yn destun cynlluniau gweithredu o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig.

40. Nid yw cyfrifoldebau awdurdodau lleol am baratoi eu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol eu hunain yn dibynnu ar ddarpariaethau'r Ddeddf hon. Mae'r cynlluniau hyn ymhlith yr elfennau y dylai awdurdodau lleol adeiladu arnynt wrth baratoi'r strategaeth gymunedol gyffredinol sy'n ofynnol o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000[2]. Bydd safleoedd bywyd gwyllt lleol yn elfennau pwysig yn y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

### Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

41. Mae Atodlen 9 yn rhoi darpariaethau newydd arwyddocaol ynglŷn â hysbysu am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), eu diogelu a'u rheoli yn lle adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hysbysiadau a wnaed eisoes i awdurdodau lleol o dan yr adran honno yn dal yn ddilys, ond bydd yr ychydig iawn o hysbysiadau sydd ar ôl o dan adran 23 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn colli eu heffaith. Bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau unigol ynglŷn â'r safleoedd hyn. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi cyngor pellach, mewn Cod Canllawiau diwygiedig ac ynddo argymhellion, cyngor a gwybodaeth i gyfarwyddo'r sawl sy'n cyflawni cyfrifoldebau o dan yr adran 28 newydd, ond ceir disgrifiad byr o effaith y darpariaethau newydd isod.

42. Mae'r newidiadau i adran 28 yn galluogi Cyngor Cefn Gwlad Cymru i wrthod caniatâd ar gyfer gweithgareddau y nodir ar hysbysiad y safle y byddent yn debygol o niweidio'r

[2] Paratoi Strategaethau Cymunedol: canllawiau drafft i awdurdodau lleol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2001.

diddordeb arbennig. (Cyn hyn, am gyfnod cyfyngedig yn unig y gellid gwrthod caniatâd.) Maent hefyd yn cynnwys pwerau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru amrywio'r hysbysiad, naill ai o ran manylion yr hysbysiad, neu'r tir a gynhwysir; ac i ddiddymu'r hysbysiad mewn perthynas â thir nad yw bellach o ddiddordeb arbennig. Mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol o unrhyw newidiadau fel hyn.

43. Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ddyletswyddau newydd i roi hysbysiadau mewn papurau newydd lleol ac i gynnwys yn yr hysbysiad ddatganiad o farn am y ffordd y caiff y tir ei reoli; a phwerau newydd i baratoi cynlluniau rheoli i warchod y nodweddion arbennig ar SoDdGA, ac i gyflwyno hysbysiadau rheoli yn mynnu bod perchnogion a deiliaid yn gwneud gwaith yn unol â chynllun rheoli. Ceir hawliau i apelio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd ac yn erbyn hysbysiadau rheoli. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu cyhoeddi Rheoliadau Apelio, gyda Chylchlythyr cysylltiedig i roi disgrifiad llawnach o'r trefniadau newydd maes o law.

44. Gellir rhoi dirwy o hyd at £20,000 yn y Llys Ynadon (neu ddirwy heb gyfyngiad arni os ceir euogfarn ar dditiad), os bydd perchennog neu ddeiliad yn gwneud gwaith a allai beri difrod heb hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu, os bydd wedi'u hysbysu, heb gael caniatâd. Yn ogystal, gellir rhoi cosb debyg i unrhyw un sy'n difrodi neu'n dinistrio SoDdGA yn fwriadol neu'n fyrbwyll, neu'n tarfu'n fwriadol neu'n fyrbwyll ar unrhyw anifeiliaid y dynodwyd y safle o'u herwydd; a gall y Llysoedd ei gwneud yn ofynnol i'r safle gael ei adfer i'w gyflwr blaenorol. Yn ogystal, gall Cyngor Cefn Gwlad Cymru wneud is-ddeddfau i ddiogelu SoDdGA. O ganlyniad i'r mesurau ychwanegol hyn, diddymwyd pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud gorchmynion gwarchod natur o dan adran 29 o Ddeddf 1981. Mae gorchmynion presennol yn colli eu heffaith ac mae'n rhaid gwneud cais am ganiatâd ar gyfer gweithgareddau newydd.

**Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â SoDdGAau**

45. Mae'r adran 28G newydd, a osodwyd yn Neddf 1981, yn gosod dyletswydd newydd bwysig ar gyrff cyhoeddus, sy'n cyflawni swyddogaethau statudol a allai effeithio ar SoDdGA, i gymryd camau rhesymol, sy'n gydnaws â chyflawni'r swyddogaethau hyn mewn modd priodol, i hyrwyddo camau i warchod a gwella'r nodweddion sy'n gwneud y safle'n un o ddiddordeb arbennig. Mae cyrff cyhoeddus yn cynnwys awdurdodau lleol ac mae'r ddyletswydd yn sefyll lle bynnag y maent yn cyflawni eu swyddogaethau. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio profion llym wrth wneud gwaith mewn SoDdGA neu sy'n effeithio arnynt, er mwyn sicrhau eu bod yn amharu cyn lleied ag y bo modd arnynt, ac mae'n disgwyl iddynt fabwysiadu'r safonau rheoli uchaf mewn perthynas â'r SoDdGA sy'n eiddo iddynt.

46. Lle bo corff cyhoeddus wedi talu sylw i'r ddyletswydd hon ond ei fod, serch hynny, yn bwriadu gwneud gwaith sy'n debygol o niweidio nodweddion arbennig SoDdGA, mae adran newydd 28H yn ei gwneud yn ofynnol iddo hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae hyn yn wir hyd yn oed os na fydd y gwaith yn digwydd ar dir sydd wedi'i gynnwys mewn SoDdGA. Mae'n rhaid i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ei hysbysu cyn pen 28 diwrnod a yw'n rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith ai peidio. Os na fydd yn rhoi caniatâd, ond bod y corff cyhoeddus yn penderfynu ei bod yn rhaid iddo symud ymlaen â'r gwaith, mae'n rhaid iddo roi i CCGC ddim llai na 28 diwrnod o rybudd o'i benderfyniad i symud ymlaen, ac esbonio sut y mae wedi rhoi sylw i'r cyngor a gafwyd ganddo. Yn ogystal,

wrth wneud y gwaith, bydd yn rhaid iddo wneud cyn lleied o ddifrod i'r SoDdGA ag sy'n rhesymol ymarferol, ac os bydd yn achosi difrod, bydd yn rhaid iddo adfer y safle i'w gyflwr blaenorol, eto hyd y bo'n rhesymol ymarferol. Os na fydd corff cyhoeddus yn cydymffurfio â gofynion adran 28H, mae hynny'n drosedd a all arwain at gosb o ddirwy o hyd at £20,000 os ceir euogfarn ddiannod, neu ddirwy heb gyfyngiad arni os ceir euogfarn ar dditiad.

47. Mae'n rhaid i awdurdod (yn cynnwys awdurdod cynllunio) sydd â phŵer i roi caniatâd i eraill wneud gwaith arfaethedig, neu newid y ffordd y defnyddir tir, neu adeiladau arno, ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru os yw'r gwaith yn debygol o ddifrodi SoDdGA. Mae hyn yn wir hyd yn oed os na fyddai'r gwaith etc yn digwydd ar y SoDdGA. Wedyn, mae'n rhaid iddo aros 28 diwrnod cyn penderfynu a yw am roi caniatâd ai peidio, onid yw CCGC wedi'i hysbysu cyn hynny nad oes raid iddo aros, ac mae'n rhaid iddo roi sylw i'w farn, yn cynnwys ei farn am gynnwys amodau. Os bydd y corff cyhoeddus yn penderfynu rhoi caniatâd yn groes i gyngor CCGC, mae'n rhaid iddo hysbysu CCGC, ac yna ganiatáu cyfnod pellach o 21 diwrnod cyn y caiff y gwaith ddechrau. Unwaith y bydd wedi'i roi, mae caniatâd cynllunio a roddir ar gais o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cyfrif fel 'esgus rhesymol' at ddibenion yr adran 28P(4) newydd os digwydd i'r SoDdGA gael ei ddifrodi tra bydd y caniatâd hwnnw'n cael ei weithredu'n gyfreithlon.

48. Lle bo perchennog neu ddeiliad yn dymuno arfer hawliau datblygu a ganiateir ar SoDdGA, a bod y gwaith y bwriedir ei wneud wedi'i restru ar yr hysbysiad SoDdGA fel gwaith sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig, yna mae'n rhaid iddo ef neu hi wneud cais i Gyngor Cefn Gwlad Cymru am ganiatâd o dan adran 28 yn y ffordd arferol. Os bydd y Cyngor Cefn Gwlad yn gwrthod caniatâd ar gyfer y gwaith, ni fydd modd arfer yr hawliau datblygu a ganiateir. Mewn achosion felly, neu lle bo Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gosod amodau ar ganiatâd, caiff yr ymgeisydd apelio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Neu, fel arall, caiff y perchennog neu'r deiliad wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd cynllunio o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Caiff ceisiadau fel hyn eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol yn y ffordd arferol; yn yr un modd, defnyddir y trefniadau arferol ar gyfer unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol i wrthod cais am ganiatâd cynllunio, neu yn erbyn amodau a osodir ar ganiatâd.

**Safleoedd Ramsar**

49. O dan adran 77 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru pan fydd wedi dynodi, o dan Gonfensiwn Ramsar, dir gwlyb i'w gynnwys yn y rhestr o diroedd gwlyb o bwysigrwydd rhyngwladol. Yna, mae'n rhaid i Gyngor Cefn Gwlad Cymru hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ogystal â pherchnogion a deiliaid y tir, a chyrff perthnasol eraill.

50. Yng Nghymru, ychwanegwyd at y ddarpariaeth hon gan ganllawiau polisi ar ddiogelu a rheoli safleoedd Ramsar yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2001, sy'n golygu eu bod yn cael eu diogelu i'r un lefel â safleoedd Ewropeaidd (yn ôl diffiniad y Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c) 1994). Mae hwn yn rhoi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol a chyrff cyhoeddus eraill ar faterion y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ar gynlluniau datblygu sy'n debygol o effeithio ar

safleoedd a restrir fel tiroedd gwlyb o bwysigrwydd rhyngwladol ac wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan yr adran 28G newydd. Os rhoddir caniatâd ar gyfer datblygiadau a fydd ar safleoedd fel hyn neu'n effeithio arnynt, ac mae hynny'n beth anghyffredin, bydd yn rhaid gwneud iawn am y tiroedd gwlyb a gollir trwy adfer ac ail-greu cynefinoedd. Yn ogystal, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n disgwyl mai'r datblygwyr fydd yn gorfod talu costau'r pecynnau hyn i adfer cynefinoedd fel rheol, o dan yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

**Gorchmynion Calchbalmentydd**

51. Mae pwerau gan awdurdodau cynllunio unedol o hyd o dan adran 34 o Ddeddf 1981 i wneud gorchmynion calchbalmentydd sy'n gwahardd symud neu darfu ar galchfeini ar dir sy'n dod o dan y gorchymyn. O dan adran 78 o'r Ddeddf, mae'r gosb am drosedd o dan orchymyn fel hyn wedi'i chodi i £20,000, yn unol â'r gosb am ddifrodi SoDdGA.

**Gorfodi darpariaethau ym maes Bywyd Gwyllt**

52. Yn ogystal, mae Rhan III yn cynnwys mesurau i gryfhau'r gwaith o orfodi'r darpariaethau yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 mewn perthynas â diogelu rhai rhywogaethau bywyd gwyllt. Mae adran 25 o Ddeddf 1981 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddwyn Rhan I o'r Ddeddf honno i sylw'r cyhoedd, ac mae'n eu galluogi i gychwyn achosion cyfreithiol am droseddau a gyflawnir yn eu hardal.

53. Mae Atodlen 12 o'r Ddeddf yn gwneud rhai troseddau'n rhai 'arestiadwy' – bydd hyn yn rhoi pwerau cryfach i'r heddlu i chwilio ac atafaelu; mae'n creu troseddau newydd yn ymwneud â tharfu'n fyrbwyll; mae'n rhoi rhagor o bwerau i'r heddlu ac i arolygwyr bywyd gwyllt y llywodraeth – bydd ganddynt bwerau i fynd i eiddo pobl sydd â thrwyddedau i werthu creaduriaid i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded a gallant ei gwneud yn ofynnol cymryd samplau o feinwe o fywyd gwyllt er mwyn gwneud dadansoddiad DNA; ac mae'n galluogi Llysoedd i roi dirwyon trymach ac i garcharu pobl am bron bob trosedd o dan Ran I o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

**Rhan IV: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol**

54. Mae Rhan IV o'r Ddeddf yn cyflwyno darpariaethau i alluogi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) i gael eu rheoli a'u diogelu'n well. Mae'n ei gwneud yn ofynnol paratoi a chyhoeddi cynllun rheoli ar gyfer pob AoHNE. Mae'n gosod dyletswydd ar 'awdurdodau perthnasol' i roi sylw i ddiben gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AoHNE wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â thir mewn AoHNE neu swyddogaeth a fydd yn effeithio arno (gweler paragraff 60 isod). Mae'n darparu ar gyfer creu byrddau cadwraeth ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol unigol trwy gyfrwng gorchymyn sefydlu a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd yn cadarnhau'r darpariaethau ar gyfer Ardaloedd felly a oedd wedi'u cynnwys cynt yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

55. Mae'r dyletswyddau newydd a osodir gan Ran IV yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sydd â thir mewn AoHNE i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli ar gyfer yr AoHNE. Mae'n rhaid cael cynllun rheoli yn ei le ar gyfer pob AoHNE erbyn 30 Ebrill 2004.

**Cynlluniau Rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol**

56. O dan adran 89 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol paratoi a chyhoeddi cynllun rheoli ar gyfer pob AoHNE. Awdurdodau lleol sydd â thir yn yr AoHNE sy'n gyfrifol am wneud hynny, ac eithrio mewn achosion lle bo bwrdd cadwraeth AoHNE yn cael ei ffurfio (gweler paragraffau 61-66). Felly, bydd angen i awdurdodau lleol mewn AoHNE sefydlu mecanwaith ar gyfer cydweithio i baratoi, cyhoeddi ac adolygu'r cynlluniau hyn. Eisoes ceir cynlluniau rheoli anstatudol ar gyfer llawer o Ardaloedd fel hyn ac fe gafwyd profiad eisoes o fecanweithiau cydweithio ymhlith yr awdurdodau lleol.

57. Bwriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw y bydd cyflwyno cynllun rheoli sy'n ofynnol yn statudol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn codi proffil materion rheoli'r Ardaloedd hyn ac yn dangos ymroddiad awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i'w rheoli. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn disgwyl cyhoeddi canllawiau manwl ar ddulliau paratoi a chynnwys cynlluniau rheoli yn ystod 2001; caiff y canllawiau eu paratoi mewn cydweithrediad agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a bydd yn tynnu ar brofiad y Parciau Cenedlaethol sydd eisoes yn gorfod cyhoeddi cynlluniau rheoli. Bydd awdurdodau lleol sy'n paratoi cynlluniau rheoli AoHNE yn ymwybodol o'r angen am gysondeb â chynnwys cynlluniau eraill y mae'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi, yn cynnwys Strategaethau Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Dylai cyfranogiad y gymuned fod yn sail ar gyfer y gwaith o baratoi a gweithredu Cynlluniau Rheoli.

58. Mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol cyfrifol baratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli cyn pen tair blynedd ar ôl i'r adran berthnasol gychwyn ar 1 Mai 2001. Os oes gan awdurdod lleol neu gydbwyllgor gynllun anstatudol sydd wedi'i gynnig yn ystod y ddwy flynedd neu dair ddiwethaf, gellir adolygu hwnnw a'i fabwysiadu fel cynllun rheoli'r AoHNE. Ar ôl cyhoeddi cynllun, mae'n rhaid ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi rhagor o arian i awdurdodau lleol i weithredu darpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni swyddogaethau craidd ym mhob AoHNE yng Nghymru, yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau rheoli. Yn ogystal, mae'r Cynulliad yn rhoi rhagor o arian i Gyngor Cefn Gwlad Cymru o 2001/2002 ymlaen i'w alluogi i gynnig lefel gytunedig o gymorth i gyflawni swyddogaethau craidd ac i ddarparu grantiau ar gyfer prosiectau priodol sy'n gydnaws â'r cynllun rheoli mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

59. Ni fydd cynlluniau rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn rhan o system y cynlluniau datblygu statudol. Serch hynny, gall yr elfennau hynny mewn cynllun rheoli AoHNE sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir, ac sy'n ychwanegu at y polisïau a nodir yn y cynllun datblygu ac yn eu cefnogi, fod yn faterion perthnasol i'w hystyried wrth benderfynu ar gais cynllunio a, lle bo'n briodol, gellir eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol.

**Dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus**

60. Mae adran 85 o’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar unrhyw awdurdod perthnasol, wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â thir mewn AoHNE, neu a fydd yn effeithio arno, i roi sylw i’r diben o warchod a gwella harddwch naturiol yr AoHNE. Diffinnir ‘awdurdod perthnasol’ fel unrhyw un o Weinidogion y Goron, unrhyw gorff cyhoeddus, unrhyw ymgymerwr statudol neu unrhyw un sy’n dal swydd gyhoeddus. Mae ‘corff cyhoeddus’ yn cynnwys unrhyw awdurdod lleol. Modelir yr adran hon ar y ddyletswydd debyg at ddibenion Parciau Cenedlaethol a gyflwynwyd gan adran 62(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae’r ddyletswydd yn sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn cymryd dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad neu wrth wneud gwaith mewn perthynas â thir mewn AoHNE neu waith sy’n effeithio arno. Disgwylir i awdurdodau perthnasol allu dangos eu bod wedi cyflawni’r ddyletswydd hon. Byddant yn dymuno ystyried a fyddai’n fuddiol cyfeirio at hyn yn eu hadroddiadau blynyddol. Weithiau, efallai y bydd gweithgareddau rhai awdurdodau y tu allan i AoHNE yn effeithio ar yr Ardal. Mewn achosion felly, bydd yn bwysig sicrhau cydweithrediad ar draws ffiniau Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn enwedig mewn materion cynllunio a phriffyrdd.

**Byrddau Cadwraeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol**

61. Mae adran 86 o’r Ddeddf yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu byrddau cadwraeth ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol unigol trwy orchmynion sefydlu. Disgwylir y bydd byrddau cadwraeth yn fwyaf addas ar gyfer rhai o’r AoHNE mwyaf yng Nghymru a Lloegr sy’n croesi ffiniau nifer o awdurdodau lleol, a lle byddai’n fuddiol rheoli’r AoHNE mewn ffordd unedig. Nid yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru o’r farn bod byrddau cadwraeth yn addas i Gymru ar hyn o bryd ac nid oes gan y Cynulliad gynlluniau ar hyn o bryd i sefydlu rhai.

**Rhan V: Amrywiol ac atodol**

**Fforymau mynediad lleol.**

62. Mae adran 94 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd ac awdurdodau parciau cenedlaethol i sefydlu fforymau mynediad lleol i gynghori ar ffyrdd o wella mynediad i’r cyhoedd i gymryd rhan mewn hamdden awyr agored a mwynhau’r ardal. Bydd yn rhaid i awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf roi sylw i farn fforymau pan fyddant yn gwneud penderfyniadau, er enghraifft mewn perthynas â mapiau drafft, cyflwyno is-ddeddfau, a chynlluniau i gau tir mynediad am gyfnod hir (o dan Ran I), yn ogystal ag ar faterion ehangach yn ymwneud â mynediad a nodir mewn cynlluniau gwella newydd ar gyfer hawliau tramwy (o dan Ran II). Ni fydd y ddyletswydd yn codi hyd nes i’r Cynulliad Cenedlaethol wneud rheoliadau yn nodi cyfansoddiad a swyddogaethau’r fforymau. Cyhoeddwyd Rheoliadau drafft i ymgynghori arnynt a disgwylir y bydd y rheoliadau ar Fforymau Mynediad Lleol yn dod i rym ym mis Ionawr 2002. Mae’n rhaid i’r rheoliadau ddarparu y bydd aelodau’r fforymau’n cynnwys pobl sy’n defnyddio hawliau tramwy a’r hawl mynediad newydd, perchnogion a deiliaid tir, a phobl/sefydliadau sydd â buddiannau eraill sy’n arbennig o berthnasol i’r ardal. Caiff awdurdodau lleol eu hannog i gydweithio ag awdurdodau cyfagos i sefydlu fforymau mynediad lleol sy’n rhoi’r

gwasanaeth gorau i'w hardaloedd a'u cymunedau. Dylai awdurdodau lleol ystyried manteision sefydlu fforymau mynediad lleol anstatudol dros dro cyn i'r rheoliadau ddod i rym i gynghori ar ddatblygiad rheoliadau a threfniadau.

**Cytundebau rheoli**

63. Mae adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn galluogi awdurdodau lleol i ymrwymo i gytundebau rheoli gyda pherchennog tir yng nghefn gwlad i'w warchod (ac at ddibenion cysylltiedig eraill). Mae adran 96 o Ddeddf 2000 yn diwygio adran 39 fel y gall y Countryside Agency, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a byrddau cadwraeth mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ymrwymo i gytundebau felly hefyd, ac i alluogi cytundebau i gael eu gwneud ar gyfer unrhyw dir, boed yng nghefn gwlad ai peidio. Bydd y diwygiadau hyn yn caniatáu i'r cyrff hyn, er enghraifft, wneud cytundebau â pherchennog y tir i'w gyflwyno ar gyfer mynediad ac i sicrhau mynediad iddo dros dymor hir (trwy sicrhau na all tir a gyflwynir ar gyfer mynediad ddod yn dir eithriedig at ddibenion Atodlen 1).

**Y Grîn mewn Trefi a Phentrefi**

64. Mae adran 98 o'r Ddeddf yn diwygio ac yn egluro trydydd cymal y diffiniad o'r grîn mewn trefi a phentrefi a geir yn adran 22 (1) o Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965.

65. O dan ran gyntaf y diffiniad diwygiedig, caiff y tir ei gyfrif yn grîn pentref ar yr amod ei fod yn dir lle bu nifer sylweddol o drigolion unrhyw gylch, neu unrhyw gymdogaeth mewn cylch (*"inhabitants of any locality, or of any neighbourhood within a locality")* , yn cymryd rhan mewn chwaraeon a difyrrwch cyfreithlon arno ers dim llai nag 20 mlynedd fel mater o hawl. Goblygiadau hyn yw mai'r unig beth y bydd yn rhaid i'r awdurdod cofrestru tir comin fod yn argyhoeddedig ohono yw bod *nifer* sylweddol o drigolion lleol wedi bod yn defnyddio'r tir mewn ffordd sy'n ei wneud yn gymwys. Felly bydd y defnydd a wnaed ohono gan bobl o'r tu allan i'r ardal yn amherthnasol. Yn ogystal, y bwriad wrth gyfeirio at "*..any locality, or of any neighbourhood within a locality ..."* yw egluro nad yw cylch yn cyfateb i ardal weinyddol o anghenraid, e.e. cyngor cymuned cyfan, ond yn hytrach i ardal addas lle gellir disgwyl yn rhesymol i'r tir dan sylw gael ei ddefnyddio fel grîn.

66. Yn ôl ail ran y diffiniad diwygiedig, mae'n rhaid i'r trigolion lleol naill ai barhau i ddefnyddio'r tir mewn ffordd sy'n ei wneud yn gymwys neu mae'n rhaid eu bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r tir yn ystod cyfnod a nodir mewn rheoliadau. Yn ogystal, gall y rheoliadau hyn ei gwneud yn ofynnol bod trefniadau penodol yn cael eu dilyn mewn perthynas â'r broses o wneud cais i gofrestru'r tir yn grîn.

67. Daeth y diffiniadau diwygiedig a gynhwysir yn yr adran hon i rym ar 30 Ionawr 2001. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried pa ddarpariaethau y dylid eu cynnwys mewn rheoliadau dilynol.